Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor wedi'i gyfansoddi o 30 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Llafur 15
- Annibynnol 15

Gwariodd y Cyngor £116.4 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22[2].

[1] Rydym yn diffinio gwario ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost Cyfrif Refeniw Tai o wasanaethau, yn ogystal â phraeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[2] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2021-22.

| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cyngor £41.7 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio[3]. Mae hyn yn cyfateb i 35.8% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4]. |
| Ystyrir bod ychydig dros un rhan o bump o'r 36 o ardaloedd yn y fwrdeistref sirol ymhlith y 10% o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru, a dyma'r ail uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[5]. |
| Rhagwelir y bydd poblogaeth Merthyr Tudful yn cynyddu 4% rhwng 2020 a 2040 o 60,600 i 63,200. Mae'r amcanestyniad yn tybio gostyngiad o 4% i nifer y plant, dim newid i nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 27% i nifer y bobl 65 oed a hŷn[6]. |

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Cwblhawyd gwaith gennym yn ystod 2021-22 i fodloni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**
  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu yn briodol.
- **Gwerth am arian**
  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**
  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balansau ysgolion yw hwn. Mae'n eithrio cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

[4] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2021-22

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru.

[6] Ffynhonnell: Stats Cymru

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2021-22 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor bob blwyddyn.

### Ar gyfer 2021-22:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor â pharagraff pwysleisio mater yn tynnu sylw at nodyn datgelu yn y datganiadau ariannol. Roedd y farn a'r dystysgrif yn cadarnhau cwblhad yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2021-22 yn ddyddiedig 23 Ionawr 2023, cyn dyddiad terfyn diwygiedig Llywodraeth Cymru o 31 Ionawr 2023.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu ac Adroddiad Naratif Blynyddol y Cyngor yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a gyda'n gwybodaeth am y Cyngor.
- roedd ansawdd datganiadau ariannol drafft y Cyngor a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 29 Mehefin 2022 yn dderbyniol yn gyffredinol, ond roedd nifer o newidiadau yn ofynnol i gywiro ar gyfer camddatganiadau yn deillio o'n gwaith archwilio. Adroddwyd y rhain i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ar 16 Ionawr 2023, ynghyd â phum argymhelliad i gryfhau systemau a gweithdrefnau'r Cyngor a ddefnyddir i baratoi'r datganiadau ariannol.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Rydym wedi cychwyn ein gwaith a hyd yma nid ydym wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol. Byddwn yn adrodd ein casgliadau i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol.

## Adolygiad o sicrwydd ac asesiad risg

Fe wnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o'i adnoddau. Canolbwyntiodd ein gwaith ar yr agweddau canlynol ar drefniadau'r Cyngor:

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Trefniadau hunanasesu
- Cynlluniau lleihau carbon
- Sefyllfa ariannol

Cyflwynir ein canfyddiadau o'r gwaith hwn yn ein Hadolygiad o Sicrwydd ac Asesiad Risg.

## Adolygiad Llamu Ymlaen – asedau a gweithlu

Yn ystod 2021-22, fe wnaethom archwilio sut mae cynghorau yn cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y ddarpariaeth o wasanaethau. Canolbwyntiodd ein gwaith ar reolaeth strategol y Cyngor o'i asedau a'i weithlu. Ar gyfer asedau, canfuwyd gennym y gall y Cyngor ddangos ei fod yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhai o'i gynlluniau asedau, ond mae angen iddo sicrhau bod y dull hwn yn sail i'w reolaeth asedau strategol yn ehangach, ac yn cael ei gefnogi gan drefniadau adolygu a monitro cadarn. Ar gyfer y gweithlu, canfuwyd gennym mai blaenoriaeth y Cyngor fu adeiladu ar ei gapasiti gweithlu i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau ac mae angen iddo ganolbwyntio bellach ar gynllunio gweithlu strategol i gryfhau ei allu i ddarparu gwasanaethau dros y tymor canolig i'r tymor hwy.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf – Bwrdd y Rhaglen Arwain Trawsnewid – Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol

Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: A yw trefniadau Bwrdd y Rhaglen Arwain Trawsnewid yn cynorthwyo'r pedwar corff i ddatblygu dulliau gweithio rhanbarthol effeithiol a chynaliadwy? Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod Bwrdd y Rhaglen Arwain Trawsnewid mewn sefyllfa dda i ddatblygu gweithio rhanbarthol cryfach, gan adeiladu ar y cysylltiadau cynhyrchiol dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ei gynllunio yn fwy integredig ac yn dymor hwy, cryfhau agweddau ar ei drefniadau llywodraethu a bod yn fwy uchelgeisiol yn defnyddio ei adnoddau craidd cyfunol i gael mwy o effaith ar ranbarth Cwm Taf Morgannwg.

## Arolygiaethau eraill

Cymerwyd adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn i ystyriaeth gennym hefyd, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Mae AGC wedi parhau â'u gweithgarwch ymgysylltu, ond nid ydynt wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau ar y Cyngor ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf. Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar wasanaethau addysg ym mis Mawrth 2022.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, rydym hefyd yn cyflawni astudiaethau bob blwyddyn ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (Ionawr 2022)

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio a yw gwasanaethau brys yng Nghymru yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd i wneud gwell defnydd o adnoddau. Nid yw cydweithio ar draws gwasanaethau brys i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn gysyniad newydd. Mae gwasanaethau brys wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd ers blynyddoedd lawer. Mae mentrau partneriaeth arloesol wedi arbed arian, wedi lleihau amseroedd ymateb lleol ac wedi cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd. Er gwaethaf hyn, ceir disgwyliadau cynyddol o bolisi llywodraeth a deddfwriaeth bod angen i gydweithredu ddigwydd yn fwy dwys ac yn gyflymach i sicrhau y gall gwasanaethau rheng flaen ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn yr 21ain ganrif. Ar y cyfan, daethpwyd i'r casgliad bod cydweithrediad rhwng gwasanaethau brys goleuadau glas yn tyfu'n araf ond angen newid sylweddol i weithgarwch i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

## Taliadau Uniongyrchol (Ebrill 2022)

Opsiwn amgen yn hytrach na gofal neu gymorth wedi'i drefnu gan yr awdurdod lleol yw Taliadau Uniongyrchol, a gallant helpu i ddiwallu angen unigolyn neu ofalwr. Eu nod yw rhoi mwy o ddewis, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth i bobl dros y cymorth y maent yn ei gael. Ystyriodd ein hadroddiad sut mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gynnal llesiant pobl ac a ydynt yn gwella ansawdd bywyd. Edrychwyd hefyd ar sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn annog pobl i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol ac a yw'r gwasanaethau hyn yn cynnig gwerth am arian. Canfuwyd gennym fod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr wrth i'r bobl a arolygwyd gennym gydnabod eu bod yn eu helpu i aros yn annibynnol. Ond canfuwyd gennym hefyd bod rheoli a chynorthwyo pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang sy'n golygu bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn derbyn gwahanol safonau o wasanaeth.

## 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022)

Nid yw tlodi yng Nghymru yn ffenomen newydd ac mae mynd i'r afael â thlodi, a thlodi plant yn arbennig, wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru. Mae'r argyfwng costau byw presennol yn golygu bod mwy o bobl yn cael eu heffeithio a bod teuluoedd sydd wedi bod yn byw'n gyfforddus yn symud i mewn i dlodi am y tro cyntaf. Mae llawer o'r ysgogiadau y gellid eu defnyddio i leddfu tlodi y tu allan i reolaeth Cymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant yn 2011, ond mae hon yn hen a chefnwyd ar y targed i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae cynghorau a phartneriaid yn blaenoriaethu gwaith ar dlodi ond mae'r gymysgedd o ddulliau ac amgylchedd partneriaethau cymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, pwyslais, gweithredoedd, a blaenoriaethu yn amrywio'n eang. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cyllid refeniw sylweddol ar gael, ond oherwydd cymhlethdod a natur y problemau, nid yw cyfanswm y lefel wariant yn hysbys, ac nid oes unrhyw gyngor yn ymwybodol o raddau llawn ei wariant ar leddfu a mynd i'r afael â thlodi. Mae

natur fyrdymor rhaglenni grant, gweinyddiaeth or-gymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau grant, ac anawsterau'n gwario arian yn golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Mae cynghorau yn ei chael yn anodd cyflawni gwaith ataliol oherwydd maint y galw gan bobl mewn argyfwng.

## 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)

Mae Mentrau Cymdeithasol wedi'u lleoli rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn gweithredu strategaethau masnachol i sicrhau cymaint o welliannau â phosibl i lesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn aml i grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau wedi'u diffinio neu ardaloedd daearyddol. Mae mentrau cymdeithasol yn gweithio ym mhob sector o economi Cymru ac ym mhob rhan o'r wlad ac yn gynyddol amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Er bod awdurdodau lleol yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, prin yw'r rhai sydd wedi mapio eu gweithgarwch ac nid yw'r mwyafrif o awdurdodau yn ymwybodol o faint y ddarpariaeth yn eu hardal. Mae llai nag un o bob tri awdurdod lleol yn ystyried bod ganddynt berthynas ragweithiol a chefnogol gyda Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi penodol sy'n esbonio sut maent yn bwriadu hyrwyddo a thyfu'r sector. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn methu'r potensial i Fentrau Cymdeithasol helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl. Mae trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn aml yn annog Mentrau Cymdeithasol yn anfwriadol i beidio ag ymgysylltu, gan eu bod yn or-fiwrocrataidd. Nid yw gwerth cymdeithasol - y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei gynnig - yn ymddangos fel ysgogiad allweddol i lawer o awdurdodau lleol. Nid yw'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol.

## 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (Ionawr 2023)

Ar adeg pan fo'n debygol y bydd gostyngiadau pellach i wariant cyhoeddus, mae awdurdodau lleol yn dangos diddordeb cynyddol mewn annog a thyfu cydnerthedd cymunedol, gan baratoi pobl i wneud mwy drostynt eu hunain a bod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cydnerthedd cymunedol, yn rhy aml mae'r gwaith wedi'i ddiffinio'n wael ac mae gan y camau sy'n sail i gynlluniau bwyslais cul. O ystyried yr heriau cymdeithasol, ariannol a demograffig sy'n wynebu Cymru, mae angen cynyddu a chyflymu gweithgarwch. Mae capasiti, adnoddau a sgiliau yn brin, mae pobl yn wynebu dewisiadau anoddach ac yn cael trafferth yn ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae gan gymunedau ac awdurdodau lleol eu hunain wahanol alluoedd hefyd ac yn cychwyn o wahanol fannau gyda'u heriau unigryw eu hunain i'w goresgyn. Rydym yn amlygu arferion cadarnhaol ac enghreifftiau o sut mae pobl eraill yn ceisio ymateb i'r her o alluogi pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau awdurdodau lleol a sut maent yn cefnogi ac yn galluogi'r newid hwn.

## Gwaith arfaethedig ar gyfer 2022-23

Edrychwyd gennym hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn cynnwys:

- Asesu sicrwydd a risg gan gynnwys pwyslais ar:
  - Sefyllfa ariannol
  - Rheoli rhaglenni cyfalaf
  - Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – â phwyslais ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth
  - Pennu amcanion llesiant
  - Cynnydd parhaus yn erbyn yr argymhellion yn ein hadroddiad o fis Mawrth 2021 o'r enw 'asesiad o gynnydd wrth ymdrin â phryderon allweddol'
  - Ystyriaeth o drefniadau a gwasanaethau craidd eraill ee hamdden, cynllunio gwasanaeth a hunanwerthuso, trefniadau chwythu'r chwiban a rheoli gwybodaeth
- Adolygiad thematig – gofal heb ei drefnu. Mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu'r sectorau iechyd a llywodraeth leol
- Adolygiad thematig – digidol

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiad â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.